# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Mai 2020

Amser: 14.01 - 15.09

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6133

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Caroline Jones AS |
| Tystion: | Jane Hutt AS, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip<br>Alyson Francis, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd, pe bai'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Dawn Bowden AS yn dod yn Gadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Huw Irranca-Davies AS.

## 2 COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor - sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
- Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

2.2 Yn ystod y cyfarfod cytunodd y Gweinidog i:

- Rannu data ar gyfraddau marwolaethau COVID-19 yn ôl rhyw, ethnigrwydd a galwedigaeth.
- Darparu'r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp cyllido cynaliadwy.
- Darparu data ar y sector gwirfoddol yng Nghymru a'i symudiadau ers dechrau'r achosion o COVID-19.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor - trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2.

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) - trafod yr amserlen ddiwygiedig

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Bil Llywodraeth Lleol ac Etholiadau (Cymru) a chytunodd arni.